Mae i'r adran hon oblygiadau penodol o safbwynt gwaith Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n rhoi'r gofyniad penodol ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a fydd yn cael ei alw yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enwau arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg wrth ystyried ei gynigion. Mae hynny mewn perthynas ag adolygu ffiniau 2026 a ffiniau etholaethau'r Senedd wedi hynny.

Fel y gwyddoch, mae gan fy swyddfa gyfrifoldeb penodol i argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd. Mae gennym [banel o arbenigwyr](#) i'n cefnogi yn y gwaith hwn ac mae'r panel wedi datblygu [canllawiau safoni cenedlaethol](#) i sicrhau seiliau cyson a chadarn i'r gwaith. Mae gennym berthynas dda a llwyddiannus â swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Chomisiwn Ffiniau i Gymru ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd ac rydym wedi darparu cyngor rheolaidd iddynt ar faterion enwi wrth iddynt gynnal adolygiadau. Yn wir, rydym newydd ddechrau cynghori'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar enwau cymunedau yn rhan o'u cyfres o arolygon cymunedol. Rwyf felly yn croesawu ymestyn y berthynas hon i gwmpasu enwau etholaethau Senedd Cymru a bod y berthynas yn cael ei ffurfioli mewn deddfwriaeth.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad yw'r cydweithio hwn bob amser wedi arwain at fabwysiadu'r ffurfiau y mae'r Comisiynydd yn eu hargymhell. *Argymell* yw gwaith y Comisiynydd ac nid oes gofyniad statudol i neb ddilyn yr argymhellion hyn. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau anghyson yn cael eu gwneud mewn perthynas ag enwau lleoedd, fel yn achos ambell enw ar wardiau etholiadol a gadarnhawyd mewn rheoliadau gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Ysgrifennodd fy



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

rhagflaenydd fel Comisiynydd, Aled Roberts at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn amlinellu rhai o'r heriau a gododd ar y pryd. [REDACTED]

[REDACTED] Gall yr heriau hyn arwain at ddryswch ac anghysondeb. Ategwyd peth o'r rhwystredigaethau hyn ynghylch prosesau enwi ymhellach wrth i'r Comisiynydd ymateb i [Arolwg Seneddol 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru](#) hefyd. Rhaid defnyddio'r cyfle hwn i ddysgu gwersi a mireinio'r drefn gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth bennu'r enwau hynny fydd wrth galon democratiaeth yng Nghymru.

Ar sail profiad sylweddol yn y maes hwn felly, rwy'n argymhell fod y Pwyllgor yn ystyried y materion canlynol:

Mae gofyniad o dan Atodlen 1 y Bil i nodi enwau etholaethau'r Senedd mewn adroddiad yn ofyniad i 'nodi'r ddau enw— (a) yn y fersiwn Gymraeg, a (b) yn y fersiwn Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried bod un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall'. Yn ogystal, ar ôl cyhoeddi ei ail adroddiad ar adolygiad ffiniau 2026 (c) 'os yw'r Comisiwn yn ystyried unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr adroddiad cychwynnol ar gyfer enwau etholaethau'r Senedd i'w defnyddio ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg— (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig, a 5 (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd'.

Rwyf yn croesawu'r gydnabyddiaeth i'r ffaith ei bod yn bosibl y byddai un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall. Credaf y dylid mynd ymhellach na hynny a rhoi blaenoriaeth i enwau y byddai'n addas eu defnyddio yn y ddwy iaith er mwyn osgoi enwau deuol diangen. Yn achos nifer o etholaethau ar hyn o bryd dim ond un enw a hwnnw yn enw Cymraeg sy'n bodoli fel enw ar yr etholaeth yn y ddwy iaith. Mae [Canllawiau safoni enwau lleoedd Cymru](#) yn nodi 'Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.' Buasem yn argymhell yn gryf fod yr egwyddor hon yn cael ei mabwysiadu gan y Comisiwn wrth ei waith.

Mae'r Bil presennol felly yn gosod y cyfrifoldeb ar y Comisiwn i ystyried a phenderfynu a fyddai un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy'r naill iaith neu'r llall. Mae fy swyddogion yn gwybod o brofiad nad yw hyn bob amser yn benderfyniad hawdd a gall



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

nifer o ffactorau lywio penderfyniadau. Mae'n hanfodol fod canllawiau cyson yn cael eu llunio ar ddechrau'r broses hon fydd yn rhoi meini prawf cadarn ar gyfer dod i benderfyniadau fel hyn er mwyn sicrhau nad ar fypwys unigolion y gwneir y penderfyniadau hyn. Byddai polisi cadarn o blaid enwau uniaith – a'r rheini'n enwau Cymraeg – yn fodd o osgoi trafodaethau hirfaith am enwau ac yn fodd o hyrwyddo a phoblogeiddio'r defnydd o enwau Cymraeg yn unig fel sydd wedi dod yn arfer poblogaidd yn ddiweddar ymhlith ein parciau cenedlaethol. Buasai mabwysiadu enw Cymraeg yn unig yn arwydd grymus o statws y Gymraeg yng Nghymru.

Er gwaetha'r posibilrwydd bod un enw'n addas ar gyfer y ddwy iaith, nodir mai'r bwriad yw ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Rhaid gofyn pam nad yw'r un gwasanaeth ymgynghorol ar gael i swyddogion y Comisiwn wrth iddynt bennu enwau i'w defnyddio mewn testunau Saesneg? Fel y nodwyd eisoes mae'n hynod bosibl mai enw Cymraeg yn unig fydd ar etholaeth felly mae nodi mai'r gofyniad yw i ymgynghori â'r Comisiynydd ynghylch enwau ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gamarweiniol. Nid yw ychwaith yn gwneud cyfiawnder â'r arbenigedd helaeth sydd gan y Comisiynydd yn y maes. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am safoni enwau lleoedd Cymru – ac nid enwau sy'n tarddu o'r iaith Gymraeg yn unig.

Gan mai ymarferiad paru fydd yn digwydd ar gyfer etholiadau 2026 mae'n bosibl iawn y bydd angen defnyddio cysyllteiriau wrth gyfeirio at enwau'r etholaethau. Cymerer er enghraifft petai etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn cael ei baru ag etholaeth Ynys Môn. Rhaid gofyn beth fyddai enw'r etholaeth hon sydd â'r un enw yn Gymraeg ac yn Saesneg yn achos etholaethau Senedd San Steffan ar hyn o bryd erbyn etholiadau 2026. Er enghraifft, a fyddai'n gorfod bod yn 'Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn' yn Gymraeg yn ogystal â 'Dwyfor Meirionnydd and Ynys Môn' yn Saesneg neu a allai fod yn 'Dwyfor Meirionnydd Ynys Môn' a fyddai'n gweithio yn y ddwy iaith, ond o bosibl ddim yn dderbyniol gan etholwyr gan ei fod yn enw gwneud sy'n pentyrru elfennau ac yn ddieithr ar yr olwg gyntaf. Fy mwriad o nodi hyn yw amlygu bod nifer o ystyriaethau yn ymwneud ag argymell ffurfiau enwau etholaethau sydd ddim o bosibl yn amlwg ar yr olwg gyntaf, a rhaid neilltuo amser priodol i drafod a dod i gytundeb ar egwyddorion a phatrymau clir i'w dilyn. Byddai'n ddymunol iawn petai confensiynau cytunedig yn cael eu datblygu gan bwyllgor o arbenigwyr a'u cadw o dan ystyriaeth wrth ymgymryd â thasg o'r fath a bod hynny yn ofyniad statudol fel rhan o waith y Comisiwn ar y cyd â'r Comisiynydd. Fel y nodwyd eisoes, mae gan fy staff gryn brofiad o gydweithio â'r



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ffiniau etholaethau San Steffan a gyda'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar enwau wardiau etholiadol a chymunedau. Ar ben hyn mae ganddynt brofiad sylweddol o weithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff cenedlaethol eraill ar brosiectau i safoni ffurfiau enwau aneddiadau a nodweddion tirweddol, sydd yn eu tro yn sylfaen i lawer o enwau gweinyddol. Mae'n deg imi nodi yn y fan hon y byddai'n ddymunol gen i petai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen am adnodd ychwanegol oherwydd y gofyniad statudol hwn fydd arnaf i a'm staff, yn benodol i ddatblygu'r confensiynau cytunedig y cyfeirir atynt uchod.

O safbwynt yr ymwneud â Chomisiynydd y Gymraeg amlinellir proses debyg i'r un gydag etholaethau 2026 yn Atodlen 2 y Bil yn achos etholaethau ar gyfer y cyfnod ar ôl 2026 ac yn benodol wrth gynnal adolygiad ffiniau 'llawn' cyn Etholiad y Senedd yn 2030. Mae'r pwyntiau uchod felly yn berthnasol yn yr achos hwnnw hefyd.

Edrychaf ymlaen at barhau i drafod darpariaethau penodol y Bil mewn perthynas â gwaith Comisiynydd y Gymraeg ymhellach â'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fydd yn cael ei alw yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru maes o law).

9. Darparu ar gyfer cynnal adolygiad o effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd a'r modd y cânt eu gweithredu, yn dilyn etholiad 2026 (drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, ar ôl yr etholiad, gynnig sefydlu pwyllgor Seneddol i adolygu materion penodedig).

Mae'n ymddangos yn rhesymol cynnal adolygiad o effaith y darpariaethau deddfwriaethol yn dilyn etholiad 2026 a'r modd y cânt eu gweithredu. Buaswn yn croesawu petai ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith y darpariaethau ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r adolygiad.

Edrychaf ymlaen at drafod y Bil ymhellach â chi ar 9 Tachwedd.

Yn gywir

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



**Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner**

Amg.

Yn rhinwedd paragraff(au) iv o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/355/2023
Ein cyf/Our ref CG/PO/355/2023

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

20 fed Hydref 2023

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Medi 2023 ynghylch rhyngddibyniaethau rhwng y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Cwotâu Rhywedd arfaethedig.

Gan mai'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol fydd yn cyflwyno'r Bil Cwotâu Rhywedd yn y Senedd, hi fydd yn ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd yn eich llythyr.

Yn gywir

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Dwyllgor Biliau Diwygio

Item 6.2

Reform Bill Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDiwygio@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddDiwygio

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddReform@senedd.wales

senedd.wales/SeneddReform

0300 200 6565

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol

Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

Annwyl Mick

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): cyd-ddibyniaeth â'r Bil cwotâu rhywedd a ddisgwylir

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref 2023 yn nodi y gallwn ddisgwyl cael ymateb gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil cwotâu rhywedd sydd ar ddod, i'm llythyr dyddiedig 26 Medi 2023.

Rydym yn deall y gallai'r Dirprwy Weinidog fod mewn gwell sefyllfa i ymateb i rai o fanylion y cynigion sydd i'w cyflwyno yn y Bil a ddisgwylir, ac edrychwn ymlaen at gael ei hymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Nodaf, fodd bynnag, wrth ysgrifennu atoch, roeddem yn ymwybodol o'ch rolau amrywiol fel Cwnsler Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb am hygyrchedd cyfraith Cymru; fel Gweinidog y Cyfansoddiad, cyfrifoldeb cyffredinol am bolisi etholiadau; ac fel yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), cyfrifoldeb am sicrhau y bydd eich Bil yn gweithio'n effeithiol o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyffredinol a bod y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn darparu'r amcangyfrifon a'r wybodaeth orau i lywio gwaith craffu gan y Senedd a chan randdeiliaid.

Mae cyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth sydd â chysylltiadau agos o fewn cyfnod byr o amser yn anarferol. Mae'r her o graffu ar y cyntaf o'r darnau cysylltiedig hyn o ddeddfwriaeth heb weld yr ail, hyd yn oed ar ffurf drafft, yn sylweddol.

Edrychwn ymlaen, felly, at gael eich ymateb i gwestiynau 2(c) a (d) a nodir yn fy llythyr dyddiedig 26 Medi 2023 (a atgynhyrchir isod er hwylustod):



2(c) Asesiad o'r goblygiadau y gellir yn rhesymol ddisgwyl a fydd i'r polisi arfaethedig o ran gweithredu a rhoi'r system etholiadol a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwyno rhestrau ymgeiswyr i swyddogion canlyniadau etholaeth (adran 7(1)), hyd rhestrau ymgeiswyr (adran 7(3)), a chymhwysedd ymgeiswyr i lenwi seddi gwag (adran 9)).

2(d) Gwybodaeth am sut yr ystyriwyd goblygiadau o'r fath wrth asesu'r effeithiau ariannol a'r effeithiau eraill yn y Memorandwm Esboniadol ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa rai o'r asesiadau ariannol neu'r asesiadau effaith eraill a fyddai wedi bod yn sylweddol wahanol pe bai darpariaeth ynghylch cwotâu rhywedd wedi'i chynnwys ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac, os felly, sut.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Yn gywir



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

01 Tachwedd 2023

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Medi 2023 ynghylch rhyngddibyniaethau rhwng Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil sydd ar ddod ynghylch cwotâu rhywedd. Rwy'n ymateb fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil sydd ar ddod. Rwyf wedi ceisio ateb isod bob un o'r cwestiynau yn eich llythyr.

Mae ymrwymiad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth o fewn 12-18 mis yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ym mis Mai 2022 wedi ei gwneud yn ofynnol inni weithio'n gyflym i drosi argymhellion lefel uchel yn gynigion polisi manwl. Nid yw'r amserlen hon wedi caniatáu i'r Bil sydd ar ddod gael ei gyhoeddi cyn ei gyflwyno i'r Senedd. Mae gwahanol baneli a phwyllgorau yn y Senedd wedi bod yn ystyried cwotâu rhywedd statudol ar gyfer ymgeiswyr Etholiadau'r Senedd yn y blynyddoedd diwethaf ac mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arbenigwyr, wedi bod yn rhan o'r broses o lunio rhai o'r argymhellion sydd wedi deillio o'r grwpiau hyn.

Rwy'n awyddus i gefnogi craffu ar y Bil sydd ar ddod a'i gysylltiad â'r pecyn ehangach o ddeddfwriaeth Diwygio'r Senedd. Felly, os yw'n bosibl, byddaf yn anelu at ddarparu copi o'r Bil ymlaen llaw, dan embargo, i'r pwyllgor cyn ei gyflwyno. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Aelodau'n cofio y bydd y Bil yn destun y gwiriadau cyn cyflwyno arferol, gan gynnwys penderfyniad y Llywydd arno.

Pwrpas cyflwyno cwotâu ymgeiswyr yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer pobl Cymru, ac ar eu rhan, drwy geisio sicrhau bod y Senedd yn cynrychioli'n fras gyfansoddiad rhywedd poblogaeth Cymru. Bydd y manteision a allai ddeillio o gynrychiolaeth menywod mewn deddfwrfa yn cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil.

Mae gan y Senedd hanes cymharol dda o aelodaeth sy'n gytbwys o ran rhywedd. Cyrhaeddwyd uchafbwynt yn 2003 pan oedd 50% o'r Aelodau a etholwyd i'r ail Gynulliad yn fenywod. Ers hynny, fodd bynnag, mae lefelau cynrychiolaeth menywod yn y Senedd wedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 86
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gostwng yn is na'r lefel hon, er bod ffigurau'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos bod 51% o'r boblogaeth yn fenywod. Mae hyn yn dangos bod menywod ar hyn o bryd yn fwyafrif heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein deddfwrfa.

Wrth ystyried argymhelliad lefel uchel y Pwyllgor Diben Arbennig, rydym wedi gorfod llunio polisi manwl sydd wedi cynnwys ystyried dulliau a ddefnyddir o amgylch y byd a'r hyn a allai weithio orau yng nghyd-destun etholiadau'r Senedd. Mae ein model arfaethedig ar gyfer cwotâu wedi'i gynllunio i sicrhau'r siawns orau posibl o gyflawni Senedd y mae o leiaf 50% o'i haelodau yn fenywod (sy'n adlewyrchu ein poblogaeth yn fras), gan sicrhau hefyd fod modd ei weithredu'n effeithiol o fewn system etholiadol y Senedd.

Bydd y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cwotâu rhywedd ymgeiswyr o fewn y system rhestr gaeedig (y darperir ar ei chyfer ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)), yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig. Yn benodol, bydd yn gosod trothwy isaf ar gyfer cyfran y menywod ar restrau ymgeiswyr pleidiau ac yn y safle cyntaf ar draws holl restrau plaid. Bydd Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a swyddog cenedlaethol newydd yn chwarae rôl allweddol o ran asesu cydymffurfiaeth pleidiau â'r rheolau. Wrth ddatblygu'r model, rydym wedi gweithio i sicrhau y gellir parhau i gynnal etholiadau'r Senedd yn effeithiol.

I ddylunio'r polisi, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chynrychiolwyr y gymuned etholiadol i ystyried effeithiau cwotâu ar brosesau etholiadol presennol, gan gynnwys yng nghyd-destun y newidiadau sydd i'w rhoi ar waith o ganlyniad i'r system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig newydd.

Ni fydd y ddeddfwriaeth sydd ar ddod yn effeithio ar weithrediad y system etholiadol a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Er enghraifft, bydd y darpariaethau ynghylch cyflwyno rhestrau ymgeiswyr i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol (adran 8 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sy'n mewnosod adran 7 newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006), hyd rhestrau ymgeiswyr (adran 7(3) newydd) a llenwi seddi gwag (adran 9 o'r Bil), yn aros yr un fath p'un a ydynt yn gweithredu gyda chwotâu neu hebddynt. Serch hynny, mae cwotâu yn rhan bwysig o'r pecyn cyffredinol ar gyfer diwygio'r Senedd ac mae'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd.

Gallaf gadarnhau mai'r bwriad, yn unol ag adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, yw i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol fod yn gyfrifol am wirio bod rhestrau pleidiau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cwotâu ar lefel yr etholaeth leol, yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd yn derbyn ac yn asesu papurau enwebu a rhestrau pleidiau i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r rheolau etholiadol cyfredol.

Roedd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi'u cyfyngu i gwmpas y Bil hwnnw. Bydd effeithiau ariannol cwotâu yn cael eu nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân o fewn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil sydd ar ddod. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i graffu ar y Bil sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, gall y Cwnsler Cyffredinol a minnau gadarnhau na fyddai'r asesiad ariannol na'r asesiadau effaith eraill ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi bod yn sylweddol wahanol pe bai darpariaeth ynghylch cwotâu wedi'u cynnwys ynddo. Y rheswm dros hyn yw y gweithredwyd mewn modd i integreiddio'r model i brosesau etholiadol presennol a'r cynigion ar gyfer system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig.


Rwy'n cael ar ddeall eich bod wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ar 25 Hydref 2023 mewn perthynas â chwestiynau 2(c) a 2(d) a oedd yn eich llythyr dyddiedig 26 Medi 2023.

Gallaf gadarnhau bod fy ymateb i'r cwestiynau hyn yn adlewyrchu ein safbwynt ni'n dau, a hyderaf ei fod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at gyflwyno'r Bil ac at weithio gyda'r pwyllgor yn ystod y broses graffu.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Hannah Blythyn AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

CC: Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and
Constitution Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Senedd Cymru / Senedd Wales
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Eitem 6.4

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS,
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

31 Hydref 2023

Annwyl Mick,

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023

Diolch eto am ddod i'n cyfarfod ar 16 Hydref 2023. Rydym yn ddiolchgar am yr amser rydych wedi'i roi i'r Pwyllgor.

Fel y nodwyd ar ddechrau'r cyfarfod, hoffem fod wedi gofyn nifer o gwestiynau i chi ond nid oedd digon o amser i wneud hynny. Felly, byddem yn croesawu cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 16 Tachwedd 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, David Rees AS.

Yn gywir

Alun Davies
Cadeirydd (Dros Dro)

ATODIAD**Adran 5 – Cynyddu nifer y Gweinidogion**

Cwestiwn 1: Mae adran 5 o'r Bil yn caniatáu ar gyfer cynyddu, drwy reoliadau, yr uchafswm terfynol o Weiniogion Cymru o 17 i 18 neu 19. Pam y cynigir pŵer gwneud rheoliadau, a pham na fyddai Bil newydd yn fwy priodol o safbwynt cyfansoddiadol?

Cwestiwn 2: Pam nad oes pŵer i ostwng yr uchafswm terfynol drwy reoliadau yn y dyfodol ar ôl i'r pŵer gael ei ddefnyddio? Oherwydd hyn ni fyddai'n bosibl, er enghraifft, gynyddu'r terfyn dros dro at ddibenion penodol - fel Gweinidog penodol ar gyfer argyfyngau penodol (e.e. Covid), neu ddigwyddiadau mawr (e.e. Gemau'r Gymanwlad).

Cwestiwn 3: Pa ystyriaeth a roddwyd i wneud y pŵer yn adran 5 yn ddarostyngedig i weithdrefn a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol bod uwch-fwyafrif o Aelodau yn pleidleisio o'i blaid?

Adran 7 – Rhannu swyddi

Cwestiwn 4: Yn eich barn chi, a fyddai adran 7 o'r Bil yn ddiangen pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn cyhoeddi datganiad ar rannu swyddi, er enghraifft, ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd?

Cwestiwn 5: Pam na fyddai Llywodraeth newydd Cymru yn rhwym i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas ag argymhellion Pwyllgor a sefydlwyd o dan adran 7?

Cwestiwn 6: Pam nad oes darpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyhoeddi Bil drafft yn ymwneud â rhannu swyddi ac ymgynghori arno?

Adran 19 – darpariaethau adolygu

Cwestiwn 7: A allwch egluro pam y mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor newydd gael ei sefydlu, pan allai pwyllgor a sefydlir ar ddechrau'r Seithfed Senedd fod mewn sefyllfa well i ymgymryd â'r gwaith hwnnw (pe bai am wneud hynny)?

Cwestiwn 8: Pa ffactorau y gwnaethoch chi eu hystyried cyn penderfynu bod yn rhaid i'r pwyllgor gwblhau'r adolygiad ddim hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026? Pam na fyddai pwyllgor yn gosod ei amserlen ei hun ar gyfer craffu ar ôl deddfu?

Hygyrchedd (gan gynnwys gorgyffwrdd rhwng Biliau diwygio etholiadol)

Cwestiwn 9: Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y Bil hwn a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Er enghraifft, mae'r ddau yn diwygio trefn anghymhwysu y Senedd, ac mae'r ddau yn gwneud darpariaeth ynghylch Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fel y caiff ei adnabod ar hyn o bryd).



- a. A allwch chi esbonio pam nad yw darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwysu yn cael eu cydgrynhoi mewn un Bil?
- b. A allwch chi esbonio pam nad yw darpariaethau sy'n ymwneud â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fel y caiff ei adnabod ar hyn o bryd) yn cael eu cydgrynhoi mewn un Bil?

Cwestiwn 10: A allwch chi esbonio sut mae'r Bil 'cwotâu rhywedd' sydd ar y gweill yn debygol o ryngweithio â'r Bil hwn, ac i ba raddau y mae'r ddau yn gyd-ddibynnol?

Cwestiwn 11: Mae adran 4 o'r Bil yn darparu ar gyfer ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol drwy wneud diwygiadau niferus i adran 25 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru*. Mae'n anodd gweld effaith gyffredinol y diwygiadau ar wyneb y Bil heb gyfeirio at yr Atodlen Ddiwygiadau/Atodlen Keeling yn y Memorandwm Esboniadol.

Rydym yn cydnabod na ellid dileu adran 25 o Ddeddf 2006 yn ei chyfanrwydd a rhoi testun newydd yn ei lle am resymau cymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, a allwch egluro pam na aed ati yn y Bil i ddileu'r rhan fwyaf o'r testun yn adran 25 fel ei bod yn darllen yn gliriach, yn hytrach na gwneud nifer o ddiwygiadau ar wahân yn adran 4?

Ffactorau posibl sy'n effeithio ar weithredu erbyn 2026

Cwestiwn 12: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r risg y caiff y Bil ei atgyfeirio i'r Goruchaf Lys gan Dwrnai Cyffredinol y DU?

Cwestiwn 13: A allwch chi esbonio canlyniad atgyfeiriio i'r Goruchaf Lys ar allu'r Senedd i weithredu'r diwygiadau etholiadol o dan y Bil erbyn etholiad 2026.

Cwestiwn 14: A allwch chi esbonio pa ffactorau eraill a allai effeithio ar allu'r Senedd i weithredu'r diwygiadau arfaethedig erbyn etholiad 2026, a sut mae Llywodraeth Cymru wedi lliniaru yn erbyn y risgiau hynny.

Deddfwriaeth y dyfodol

Cwestiwn 15: A oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygio etholiadol bellach ar ôl y Bil 'cwotâu rhywedd' sydd ar y gweill? Os felly, a fyddai'r Cwnsler Cyffredinol yn ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath ar ffurf drafft?

Huw Irranca-Davies

Eitem 6.5
Aelod o'r Senedd/dros Ogwr
Member of the Senedd for Ogmore

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Swyddfa Etholaeth
Uned 2, 112-113 Commercial Street, Maesteg, CF34 9DL

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Constituency Office
Unit 2, 112-113 Commercial Street, Maesteg, CF34 9DL

Ein cyf | our ref: HID/
Eich cyf | your ref:

02 November 2023

0300 200 7328 

huw_irranca_davies 

@huw4ogmore 

/huw4ogmore 

Huw Irranca-Davies MS
Former Chair
Special Purpose Committee on Senedd Reform

David Rees
Chair
Reform Bill Committee

Dear David,

Senedd Cymru (Members and Elections) Bill

Thank you for your letter dated 16 October 2023. I welcome this opportunity, in my capacity as former Chair of the Special Purpose Committee on Senedd Reform, to respond to your questions about its work.

I enclose my response to your questions with this letter, which I hope you will find useful in your scrutiny of the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill.

Please let me know if I can be of any further assistance.

Yours sincerely,

Huw Irranca-Davies

Member of the Senedd for Ogmore/Aelod o'r Senedd dros Ogwr
Welsh Labour and Co-operative/ Llafur Cymru a Chydweithredol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 92

Response to questions posed in a letter from the Chair of the Reform Bill Committee on 16 October 2023

Question 1

The Committee's interpretation of its remit (to consider the conclusions reached by the Committee on Senedd Electoral Reform and to make recommendations for policy instructions for a Welsh Government Bill on Senedd reform), and how that remit shaped the Special Purpose Committee's recommendations.

1. In considering the Committee's interpretation of its remit, it is important to both consider the task it was set by the Senedd and the voting arrangements that were applied to its work.
2. As you are aware, the task set was to consider the conclusions previously reached by the Committee on Senedd Electoral Reform in the Fifth Senedd; and by 31 May 2022, to make recommendations for policy instructions for a Welsh Government Bill on Senedd reform.
3. From the outset, the Senedd restricted the Committee to only making recommendations to the Senedd that carried the support of a supermajority i.e. a resolution to agree recommendations to the Senedd had to be passed on a vote in which the committee members voting in favour carried at least 40 votes. Voting on the committee was weighted, with members representing a political group carrying a vote for each member of the political group to which they belonged (with the Llywydd not voting, and the Chair only holding a casting vote if required).
4. As you will see from the Committee's report (see in particular Section 1 Para 1 "Our Establishment"), this requirement to ensure a supermajority of support shaped the Committee's recommendations, with some committee members showing a willingness to compromise at times in the spirit of achieving the supermajority required.
5. To meet the terms of our remit, we conducted our work in three distinct phases:

Phase One: we identified where there was common ground between the policy positions of our respective political parties, in relation to the Committee on Senedd Electoral Reform's conclusions on:

- the Senedd's size and associated electoral system;

- the establishment of ongoing boundary and seat apportionment review arrangements; and
- legislative measures to encourage diversity.

Phase Two: based upon these identified areas of common ground, we gathered further information necessary for us to develop our policy proposals;

Phase Three: we developed recommendations for policy instructions for a Welsh Government Bill on Senedd reform.

6. The Welsh Conservatives were represented on the Committee until Darren Millar MS resigned on 10 May 2022, during our Phase Three discussions.

Question 2

The impact of the joint position statement issued by the First Minister and the then leader of Plaid Cymru on 10 May 2022, and the letter to the Special Purpose Committee of the same date, on the Committee's report, including any impact on the Committee's direction of travel, conclusions or recommendations.

7. Members and their political parties inevitably had a range of views on different issues related to Senedd Reform, but there was a will on all sides to try to understand different positions and to identify common ground.
8. The announcement by the Cooperation Agreement parties, and their subsequent letter to the Committee on 10 May 2022, helped inform the Committee's discussions and it was considered with equal weight as other evidence provided to the Committee. Ultimately, the decisions detailed in our report were ours to take.

Question 3: The evidence upon which the Special Purpose Committee based its recommendations, particularly recommendations in respect of: the specific number of Members (recommendation 2); the use of closed list proportional representation to elect Members of the Senedd (recommendation 7); the use of the D'Hondt electoral formula to allocate seats (recommendation 8); and the proposal that Senedd constituencies should initially be created by pairing the 32 Westminster constituencies established by the 2023 UK Parliamentary boundary review (recommendation 18).

9. In taking forward our work, we did not seek to replicate the volume of evidence previously gathered through public consultation and expert deliberation gathered by the Committee on Senedd Electoral Reform and the Expert Panel. Rather, we sought to come forward with a cross-party proposition on where we go in this Senedd on electoral reform.
10. Nevertheless, we gathered the further information that was necessary for us to develop our policy proposals and we held a number of private meetings that were not limited by the Senedd's Standing Orders, in order to facilitate frank, open and interactive discussions with a range of stakeholders.
11. We also invited stakeholders that had previously provided information to our predecessors to provide an update and we utilised this information as a platform for developing agreement across our respective political parties.

Number of Members (Rec 2)

12. The Committee recommended, among other matters, that the Senedd should have 96 Members, elected by closed list proportional representation to represent constituencies based upon the 32 new Westminster constituencies.
13. Since the Expert Panel reported in 2017, there have been major changes to the political landscape in Wales, particularly because of:
 - the significant changes since the original devolution settlement, including the roles of primary law-making powers and agreeing Welsh taxes;
 - the increased responsibility due to the UK's withdrawal from the EU;
 - the awareness of the role of the Senedd in holding the Welsh Government to account has increased since the pandemic;
 - the reduction in the number of Welsh MPs from 40 to 32, and
 - the loss of Members elected to the European Parliament.
14. We believed that an additional 36 Members would provide greater opportunity for Members to prepare for scrutiny, to conduct background research and engage with the people of Wales to better represent their concerns.
15. For these reasons, and as laid out in our report, we came to the conclusion that a larger chamber than that proposed by the Expert Panel in 2017 is appropriate, and furthermore that the increase beyond

90 members is essential to future-proof the Senedd's capacity to scrutinise the Welsh Government's increasing powers and responsibilities.

- 16.** Our decision was a proportionate adjustment in light of the significant changes that have occurred since the Expert Panel's 2017 report was published, and it recognises that the Welsh Government makes critical decisions which affect the lives of millions of people in Wales, and those decisions need to be effectively scrutinised.

The electoral system (Rec 7)

- 17.** A majority of the Committee, representing a supermajority within the Senedd as a whole agreed that the first past the post electoral system needed to be replaced in favour of a proportional system. We noted that this system would provide a single route to election for all Members and would enable a proportionate election of Members. Evidence provided to us suggested that a proportional system would be more compatible with measures to encourage gender equality.
- 18.** The Committee considered carefully the Expert Panel report and, although we acknowledged its preferred option was STV, a super-majority within our Committee ultimately felt that a list proportional system would be more suitable for Senedd elections.
- 19.** There are pros and cons to both the closed list system and flexible list system. A majority of committee members, representing the required supermajority, agreed to recommend a closed list system.
- 20.** This was because ballots used under a closed list proportional system would already be very familiar to voters (being akin to those currently used to elect Regional Members) and would facilitate strong, cohesive political parties. It was also noted that this system would readily integrate with the introduction of legislative gender quotas, and facilitate parties in putting forward a more diverse list of candidates on a broader basis.
- 21.** In respect of the electoral system and related matters discussed below, it is important to note that our report also makes clear where there were minority positions on issues such as particular types of proportional voting systems and the calculation of votes, and the use of closed or open lists.
- 22.** Ultimately however, in all these matters and in line with our remit, whilst recognising and identifying minority positions on aspects of electoral reform the committee ultimately sought to establish where the common-ground of a majority position (reflective of a super-majority vote in the Senedd) could be found.

The translation of votes into seats (Rec 8)

- 23.** We looked in some detail at different models for Members to be elected using the Sainte-Laguë formula (the option preferred by the Expert Panel) and the D'Hondt formula.
- 24.** Although a minority of Members on our Committee preferred the use of the Sainte-Laguë formula, a majority which represented a legislative super-majority within the Senedd, agreed that the D'Hondt formula should be used. It was noted that this is the formula currently used for allocating regional seats to parties, and therefore has some familiarity.

Constituency boundaries for the 2026 Senedd election (Rec 18)

- 25.** The Expert Panel considered two models for the boundaries of Senedd constituencies: the 40 existing Senedd constituencies; and the 22 local authority areas of Wales.
- 26.** We considered these models along with a third option of basing them on the 32 Westminster constituencies, which were under review at the time of our deliberations.
- 27.** Although a minority within our Committee favoured using the 22 local authority areas to create 17 multi-Member constituencies, the majority did not on the grounds that the approach would necessarily entail variances in the district magnitudes of constituencies as a result of size and population differences.
- 28.** The majority of our Committee favoured using constituencies that were broadly similar in population, to enable zero variance in the district magnitudes of different constituencies. This majority considered that it would be undesirable for some areas of Wales to have less representation than others (i.e. as some areas would have fewer Members than others).
- 29.** The Expert Panel previously rejected using the (then proposed 29) Westminster constituencies on the basis that at time of its report, there was "uncertainty about whether or when the boundary review [would] be implemented". However, since the Expert Panel reported, the Parliamentary Constituencies Act 2020 has received Royal Assent - meaning the uncertainty around whether the review would be implemented is no longer a factor.
- 30.** A majority of the Committee agreed that there would be value in using the constituencies that had been recently reviewed, given that a swift process would be necessary for pairing them. This majority also considered that there would be value in providing for Senedd constituencies to contain a broadly equal number of electors, with each electing the same number of Members.

31. We therefore recommended that the 2026 election uses the final 32 UK Parliament constituencies proposed by the Boundary Commission for Wales following its review, and that these are paired to create 16 new multi-member constituencies.

Question 4: The way in which the Special Purpose Committee's recommendations have been interpreted and reflected in the Welsh Government's Bill and accompanying Explanatory Memorandum.

32. I am pleased to see that many of the Committee's recommendations have been reflected in the Bill.

33. In making our recommendations, we understood that there would inevitably need to be drafting decisions taken by the Welsh Government as it translated some of our recommendations into workable legislation. For example, the detail of the drafting around the provisions relating to the filling of vacant seats.

34. There are provisions in the Bill that do not relate to the work of the Committee. For example, provision for the disqualification of candidates and Members on the grounds of residency.

35. Some of our recommendations simply invited further work to be undertaken by the Welsh Government and/or the Business Committee prior to the legislation being drafted.

36. The Business Committee's response to the conclusions of our report should be considered in conjunction with our report, when considering the basis for corresponding provisions.

37. There are certain recommendations which are not reflected in this Bill, such as those relating to gender equality. We will need to await the second Senedd Reform Bill, that is to provide for balanced gender representation, before assessing how this aspect of the Committee's work has been reflected in draft legislation.
